Apêl i rieni am gefnogaeth i atgyfnerthu rheolau'r Ysgol

Hoffem apelio am eich cefnogaeth barhaus i sicrhau fod eich plentyn yn cydymffurfio gyda rheolau'r Ysgol ac yn parhau i gynnal y safonau uchel sy'n ddisgwyliedig yma yng Ngwynllyw.

- **Y GYMRAEG** yw iaith yr Ysgol yn y gwersi a thu allan iddynt.
- **GWISG YSGOL**
  - Sgert / trowsus glas tywyll (dim jîns, dim trowsusau gor dynn anaddas ar gyfer y gweithle, dim sgertiau gor fyr anaddas ar gyfer y gweithle)
  - Crys /blows wen neu las golau
  - Tei'r Ysgol
  - Blaser las tywyll gyda bathodyn yr Ysgol arni
  - Esgidiau du (dim esgidiau ymarfer corff)
  - Ni chaniatëir 'hwdis' o gwbl.
  - Un pâr o glustdlysau bach yn y glust yn unig. Oriawr.
  - Dim colur amlwg na phaent ewinedd
  - Lliw gwallt naturiol
- **YMDDYGIAD**
  - Cwrteisi, Cymreictod a Cydweithio yw'r 3 'C' sy'n sail i'n hegwyddorion yma yng Ngwynllyw.
  - Disgwylir i bob dysgwr ddilyn rheolau'r Ysgol ar bob achlysur.
  - Disgwylir i bob dysgwr ymddwyn yn waraidd a chall yn ystod oriau'r ysgol ac ar y daith i'r Ysgol ac adref.
- **OFFER ADDYSGOL**
  - Cas pensiliau addas i sicrhau fod dysgwyr yn barod i ddysgu ac nad yw amser Addysgu gwerthfawr yn cael ei wastraffu
- **FFONAU SYMUDOL**
  - Blwyddyn 7,8 a 9 – ffonau i'r swyddfa ar ddechrau'r diwrnod Ysgol i'w casglu ar ddiwedd y dydd.
    Blwyddyn 10 + 11. Ffonau wedi'u diffodd mewn gwersi. Os yw ffôn yn canu / dirgrynnu yn ystod gwers **gall yr athro ei atafaelu**. Bydd rhaid ei gasglu ar ddiwedd y dydd o'r swyddfa.
  - **NID OES HAWL DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL YN YSTOD AMSER EGWYL NA CHINIO.**
- **YSGOL IACH**
  - Dylid osgoi dod â diodydd uchel mewn siwgr a diodydd 'ynni uchel' i'r Ysgol. Mae ffynhonnau dwr ar gael yn yr Ysgol i ddiwallu syched.
- **SBWRIEL**
  - Dyletswydd pob unigolyn yw rhoi ei sbwriel mewn bin i sicrhau amgylchedd bleserus i bawb.
- **FIDGET SPINNERS**
  - Nid oes hawl defnyddio'r rhain mewn gwersi ac mae **gan yr athro hawl i'w hatafaelu** os yw'n eu gweld.

Gwyddom fod sicrhau disgwyliadau a safonau uchel cyson o ran ymddygiad ac ymddangosiad yn cael ei adlewyrchu yng nghyrhaeddiad academaidd dysgwyr. Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth i gynnal y safonau uchel hyn.

An appeal to parents for support to reinforce school rules.

We would like to appeal for your continued support to ensure that your child conforms to all school rules and continues to uphold the high standards expected here at Gwynllyw.

- **WELSH** is the language of all school activities, both in lessons and beyond**.**
- **School Uniform**
  - Navy skirt / trousers (no jeans, no tight trousers unsuitable for the workplace, skirts - length suitable for the workplace)
  - White or blue shirt / blouse
  - School tie
  - Navy blazer with the school badge embroidered on it
  - Black shoes (no trainers)
  - Hoodies are not allowed at all
  - One pair of small stud earrings in the ear only. Watch.
  - No obvious make-up or nail polish
  - Natural hair colour
- **BEHAVIOUR**
  - The three 'C's are the basis of our principles here at Gwynllyw **'***Cwrteisi* - politeness, *Cymreictod* – Welshness, *Cydweithio* – Collaboration'
  - All pupils are expected to follow school rules at all times.
  - All pupils are expected to behave in a civilised manner during school hours and on the journey to and from school.
- **EDUCATIONAL EQUIPMENT**
  - Pupils should bring the necessary equipment to school to ensure they are prepared for learning and to avoid wasting valuable learning time.
- **Mobile Phones**
  - Years 7,8+9 – phones should be left in the school office and collected at the end of the day.
  - Years 10 + 11. Phones should be switched off during lessons. If a phone rings /vibrates during lessons the teacher has the right to confiscate it. It can be collected from the school office at the end of the day.
  - **PHONES ARE NOT TO BE USED DURING BREAKTIME OR LUNCHTIME.**
- **A HEALTHY SCHOOL**
  - Pupils should avoid bringing drinks high in sugar and high energy drinks to school. There are water fountains at school to quench any thirst.
- **RUBBISH**
  - It is every individual's responsibility to put their own rubbish in the bin to ensure a pleasant environment for all.
- **FIDGET SPINNERS**
  - These are **NOT** permitted in lessons and the teacher has the right to **confiscate them** if they are seen.

We know from experience that ensuring high expectations and standards regarding behaviour and appearance is reflected in the academic achievement of our pupils. We therefore kindly ask for your continued support to ensure that these high standards are upheld.